



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Cyngor Sir Powys

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



Cyf: 403A2010

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Sir Powys.

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Sir Powys gan Colin Davies (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a Jackie Joyce (Cydlynnydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner).

Mae ymrwymiad Cyngor Sir Powys (y Cyngor) i symud i ddulliau darparu adrannol traddodiadol, sydd wedi cael trafferth i gyflawni ei flaenoriaethau, i ddull mwy uchelgeisiol, trawsbynciol a chydsyniol yn cynnig y potensial i sicrhau gwelliant os caiff trefniadau ategol effeithiol eu datblygu'n brydlon.

**Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



Cynnwys

Crynodeb	4
Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser	7
Mae gan y Cyngor hanes diweddar o newid ac nid yw wedi cyflawni ei flaenoriaethau sefydledig mewn rhai meysydd ond mae gan ei Fodel Newid Strategol sy'n cael ei ddatblygu y potensial i gefnogi gwelliant, os caiff ei ddatblygu'n brydlon a'i reoli'n ofalus	7
Nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei flaenoriaethau hirsefydledig mewn rhai meysydd gwasanaethau allweddol ac mae ei gynnydd mewn meysydd eraill wedi bod yn araf	7
Mae gan y Cyngor dîm rheoli a gweinyddiaeth wleidyddol newydd sy'n ymrwymedig i newid gwasanaethau er gwell a gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael	8
Bydd cyflawni amcanion uchelgeisiol y Cyngor yn anodd heb i'r arweinwyr newydd gyflwyno trefniadau cefnogol syml ac effeithiol	9
Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella	10
Mae arweinwyr a threfniadau rheoli newydd yn cyfleu gweledigaeth a strategaeth y Cyngor ac yn helpu i gynyddu lefelau ymgysylltu ond gall cynnydd gael ei arafu gan wendidau mewn trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r agenda newid strategol	10
Mae'r tîm rheoli newydd yn rhoi arweinyddiaeth gorfforaethol gref ac yn cefnogi gwaith partneriaeth cadarnhaol ond megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu manylion ei raglen newid strategol a'i drefniadau cynllunio busnes	10
Mae gan y Cyngor hanes cryf o ran rheolaeth gyllidebol ond nid yw trefniadau gwasanaethau a chynllunio ariannol wedi'u hintegreiddio'n dda ac nid yw cynllunio ariannol tymor hwy eto'n ddigonol i gefnogi ei agenda newid strategol	11
Mae prosesau rheoli pobl o hyd wedi'u tanddatblygu ac nid yw'n helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliant	12
Nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen newid drawstoriadol	13
Mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi sylfeini ar waith i alluogi TGCh i gefnogi gwelliant, ond mae angen goresgyn rhwystrau sylweddol	14

Crynodeb

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

 - Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
 - Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo.
- 3 Y nod yw gallu cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob awdurdod mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Harchwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol a oedd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol sef "Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus." Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chymdeithas Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC nad oedd modd osgoi'r ffaith y byddai'n rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi ac nad oedd yn bosibl cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig". Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.
- 6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'

- 7** Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod ymrwymiad y Cyngor i symud o ddarparu adrannol traddodiadol, sydd wedi cael trafferth i gyflawni ei flaenoriaethau, i ddull mwy uchelgeisiol, trawsdoriadol a chydysniol y potensial i sicrhau gwelliant os caiff trefniadau cefnogol effeithiol eu datblygu'n brydlon.
- 8** Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol gennym:

- Mae gan y Cyngor hanes diweddar o newid ac nid yw wedi cyflawni ei flaenoriaethau mewn rhai meysydd yn gyson ond mae gan ei Fodel Newid Strategol (MNS) sy'n cael ei ddatblygu y potensial i gefnogi gwelliant, os caiff ei ddatblygu'n brydlon a'i reoli'n ofalus.
- Mae'r arweinwyr a'r trefniadau rheoli newydd yn cyfleu gweledigaeth a strategaeth ac yn helpu i gynyddu ymgysylltu ond gall cynnydd gael ei arafu gan wendidau yn y trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r agenda newid strategol.

- 9** Gan mai asesiad corfforaethol rhagarweiniol yw hwn, mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blyneddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

Arolygiad arbennig

- 10** Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal Arolygiad Arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

Meysydd i'w gwella

- 11** Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur ond awgrymir meysydd i'w gwella isod.

Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

C1 Dylai'r Cyngor, fel mater o flaenoriaeth:

- ddatblygu dogfennau cychwyn rhaglen (PIDs) ar gyfer pob un o'i flaenoriaethau gwella ac effeithlonrwydd er mwyn nodi'n glir y cynlluniau gweithredu ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion gwella, gan gynnwys cerrig milltir allweddol a mesurau canlyniad;
- ffurfioli strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt o ran y MNS;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella fel bod dinasyddion yn gwybod ac yn deall yr hyn mae'r Cyngor yn ceisio'i ddarparu.

C2 Cynllunio ariannol a'r Gweithlu

- datblygu trefniadau cynllunio ariannol a'r gweithlu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu neilltuo, eu monitro a'u hadolygu yn unol â blaenoriaethau cytûn y MNS;
- datblygu ymhellach y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i gynnwys manylion am sut y caiff arbedion eu cyflawni a'u hymgorffori yn y cynlluniau gwasanaeth perthnasol.

Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

C3 Rheoli Perfformiad

Dylai'r Cyngor atgyfnerthu agweddau ar ei drefniadau rheoli perfformiad drwy:

- ddatblygu mesurau canlyniad sy'n dangos p'un a yw'r Cyngor yn gwneud gwahaniaeth i fywydau dinasyddion Powys ac i ba raddau y mae'n gwneud hynny;
- cysylltu cynlluniau strategol a gwella gwasanaethau â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau a blaenoriaethau allweddol eraill ar gyfer gwella.

C4 Partneriaethau

- Cefnogi'r BPLI i gwblhau'r adolygiad o'r Strategaeth Gymunedol a datblygu'r Cynllun Cyflenwi Unigol (CCU) gan sicrhau ei fod yn cynnwys canlyniadau mesuradwy ar gyfer dinasyddion Powys.

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

Mae gan y Cyngor hanes diweddar o newid ac nid yw wedi cyflawni ei flaenoriaethau sefydledig mewn rhai meysydd ond mae gan ei Fodel Newid Strategol sy'n cael ei ddatblygu y potensial i gefnogi gwelliant, os caiff ei ddatblygu'n brydlon a'i reoli'n ofalus

Nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei flaenoriaethau hirsefydledig mewn rhai meysydd gwasanaethau allweddol ac mae ei gynnydd mewn meysydd eraill wedi bod yn araf

Yn y gorffennol mae rhaglen Anelu'n Uchel y Cyngor i gyflawni ei amcanion gwella ond wedi'i gymhwysu at flaenoriaethau dethol

12 Sefydlodd y Cyngor ei raglen Anelu'n Uchel Powys yn 2006 i ddarparu dull mwy cydlynol o ymdrin â phrosiectau mawr. Yn ogystal â chael prosiectau Anelu'n Uchel, roedd gan y Cyngor hefyd nifer o flaenoriaethau a nodwyd.

13 Er enghraifft, yn 2009-10, gweledigaeth y Cyngor oedd 'gwella ansawdd bywyd holl drigolion Powys a'r rhai sy'n ymweld â'n sir' a'i flaenoriaethau oedd, yn ôl eu trefn:

- hybu iechyd a gofal cymdeithasol a lles;

- sicrhau cyfleoedd dysgu i bawb;
- cefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol;
- gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

14 Roedd hefyd flaenoriaeth gyffredinol i wella iechyd corfforaethol.

15 Roedd saith prosiect Anelu'n Uchel, sef: moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol, moderneiddio ysgolion, rhaglen gwasanaethau seiliedig ar asedau, mynediad at wasanaethau, strategaeth TGCh, diwylliannol a sgiliau a moderneiddio gwasanaethau cymorth.

16 Mae'r gwahaniaeth rhwng prosiectau Anelu'n Uchel a blaenoriaethau a gweithgareddau eraill y cyngor yn y gorffennol wedi arwain at rai aelodau o staff yn teimlo wedi'u dadymgysylltu ac at ganfyddiad cyffredinol bod y brif flaenoriaeth yn cael yr holl adnoddau. Mae uwch reolwyr a gwleidyddion wedi cydnabod y sefyllfa hon ac wrthi'n mabwysiadu dull o ymgysylltu lle caiff holl flaenoriaethau'r Cyngor eu cynnwys yn y drefn rheoli rhaglen Anelu'n Uchel yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni gwelliannau mewn rhai gwasanaethau ond nid pob un ac mae cyflymder y gwella wedi arafu

17 Ym mis Hydref 2009¹ gwnaethom roi gwybod bod y Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau ar gyfer 2008-09 yn ei Gytundeb Gwella, ond mae cyflymder y gwelliant wedi arafu yn erbyn targedau Cynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor a'r setiau cenedlaethol o ddangosyddion

¹ Llythyr Blynyddol ar gyfer 2008-09, Swyddfa Archwilio Cymru

Arddangosyn 2 - Mae cyfradd y gwelliant wedi gostwng

Canran y Dangosyddion sy'n Gwella			
Blwyddyn	Targedau Cynllun Gwella Corfforaethol Powys (ac eithrio'r rhai heb ddata cymharol)	Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (ac eithrio'r rhai heb ddata cymharol)	Dangosyddion Craidd (ac eithrio'r rhai heb ddata cymharol)
2006-07	58%	57%	56%
2007-08	65%	59%	56%
2008-09	55%	53%	54%

Ffynhonnell: Cynlluniau Gwella Corfforaethol Cyngor Sir Powys

perfformiad (gweler Arddangosyn 2). Dim ond 45 y cant o dargedau ei Gynllun Gwella Corfforaethol y cyflawnodd y Cyngor yn 2009-10 a 2008-09, o gymharu â 73 y cant yn 2007-08. Yn 2008-09, ym meysydd lechyd Corfforaethol a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig, roedd mwy o ddangosyddion yn dangos dirywiad mewn perfformiad na gwelliant.

- 18** Fel rhan o'n Hasesiad o Welliant cyffredinol byddwn yn cynnal Aseiad o Berfformiad yn ystod haf a hydref 2010 i asesu a yw'r Cyngor wedi gwella yn ei feysydd blaenoriaeth a sut y mae'r trefniadau corfforaethol newydd sydd wrthi'n datblygu yn cefnogi gwelliant a darpariaeth y MNS.

Mae gan y Cyngor dîm rheoli a gweinyddiaeth wleidyddol newydd sy'n ymrwymedig i newid gwasanaethau er gwell a gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael

- 19** Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi gweld newidiadau sylweddol o ran arweinwyr rheoli a threfniadau gwleidyddol. Ym mis Ionawr 2010 penodwyd y tîm rheoli newydd, gan gynnwys Prif Weithredwr newydd, o fewn y strwythur rheoli newydd sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a phedair swydd cyfarwyddwr strategol ar gyfer; Gofal a Lles, Cyllid a Seilwaith, y Gyfraith a Llywodraethu a Chymunedau, Sgiliau a Dysgu a Chyfarwyddwr Perfformiad, Partneriaethau a Moderneiddio. Mae'r strwythur newydd yn sylweddol wahanol i'r strwythur blaenorol a oedd yn cynnwys y Prif Weithredwr, dwy swydd Cyfarwyddwr Gweithredol (Pobl a Lles, a Threfniadaeth ac Adfywio) a Phennaeth Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol. Mae'n rhy gynnar i wneud sylw ynghylch a fydd y



trefniadau newydd yn meithrin gweithio traws-sefydliadol effeithiol ac yn cynorthwyo gwelliant.

- 20** Mae'r Cyngor yn gweithredu o dan y pedwerydd opsiwn gyda Bwrdd o 15 o aelodau. Ym mis Tachwedd 2009 ffurfiwyd gweinyddiaeth rhwng Cynghrair Annibynnol Powys a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Cafodd y weinyddiaeth effaith ar y broses gwneud penderfyniadau yn arbennig neilltuo cyllid ar gyfer 2010-11. Dyma'r tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd lle'r oedd rhywfaint o sicrwydd/eglurder am gyfeiriad a chanlyniad y cynigion ar y gyllideb.
- 21** Mae'r arweinwyr newydd wedi cytuno ar raglen rheoli newid strategol, a'i lansio, sydd â'r nod o weddnewid y gwaith o ddarparu gwasanaethau a gwneud arbedion ariannol sylweddol. Ym mis Chwefror 2010 cytunodd y Bwrdd i ymgynghori â grwpiau gwleidyddol ar weledigaeth a MNS newydd y Cyngor. Ym mis Mai 2010 cytunodd y Bwrdd ar y weledigaeth, MNS a PIDs newydd sy'n cwmpasu'r blaenoriaethau gwella ac effeithlonrwydd.
- 22** Mae gweledigaeth gytûn newydd y Cyngor, 'Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Calon Werdd Cymru' a'r MNS yn nodi'r pedair blaenoriaeth ar gyfer gwelliant fel a ganlyn; byw fel oedolion, dysgu yn y gymuned, adfywio, newid yn yr hinsawdd a chwe blaenoriaeth ar gyfer effeithlonrwydd; prosesau, TGCh, y gweithlu, gwasanaethau cymorth, asedau a rheoleiddio.
- 23** Lanswyd y weledigaeth strategol a'r model newid i reolwyr mewn Cynhadledd Arweinyddiaeth a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2010.
- 24** Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod angen iddo wella gwasanaethau i

ddinasyddion mewn hinsawdd ariannol anodd. Ei ymagwedd at hyn oedd datblygu ei MNS sy'n canolbwyntio ar newid gwasanaethau yn ogystal â gwneud arbedion - oddeutu £16 miliwn dros y cyfnod pedair blynedd o'r presennol i 2014-15.

Bydd cyflawni amcanion uchelgeisiol y Cyngor yn anodd heb i'r arweinwyr newydd gyflwyno trefniadau cefnogol syml ac effeithiol

- 25** Ym mis Chwefror 2010 roedd yn ofynnol i benaethiaid gwasanaethau lunio strategaethau gwasanaeth yn seiliedig ar flaenoriaethau gwella ac effeithlonrwydd lefel uchel. Mae'r dull hwn, a arweinir gan y Prif Weithredwr, yn ymgais i ddechrau newid diwylliant Powys a symud tuag at fodel ymgysylltu lle mae pob aelod o staff yn rhan ohono o ran datblygu a chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.
- 26** Er bod y blaenoriaethau gwella ac effeithlonrwydd yn glir, maent ar lefel uchel iawn. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu PIDs ar gyfer pob blaenoriaeth a ddylai roi mwy o fanylder ac eglurder am y cynlluniau a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau gwelliannau ac arbedion gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn bwriadu dilysu ei strwythurau rhaglen yn annibynnol² i sicrhau eu bod yn briodol i sicrhau manteision.
- 27** Mae'r Cyngor eto i ddatblygu'r cerrig milltir a'r mesurau sy'n angenrheidiol i fonitro a gwerthuso cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion. Nid yw eto wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella Corfforaethol. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn brydlon ac mae'n hyderus bod ei drefniadau yn briodol ar gyfer monitro a sicrhau gwelliannau.

Rhan 2 : Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

Mae arweinwyr a threfniadau rheoli newydd yn cyfleu gweledigaeth a strategaeth y Cyngor ac yn helpu i gynyddu lefelau ymgysylltu ond gall cynnydd gael ei arafu gan wendidau mewn trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r agenda newid strategol

Mae'r tîm rheoli newydd yn rhoi arweinyddiaeth gorfforaethol gref ac yn cefnogi gwaith partneriaeth cadarnhaol ond megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu manylion ei raglen newid strategol a'i drefniadau cynllunio busnes

Mae'r tîm rheoli newydd yn rhoi arweinyddiaeth gorfforaethol gref ond megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu manylion ei raglen newid strategol a'i drefniadau cynllunio busnes

28 Mae gan y Bwrdd flaenoriaethau clir fel y'u nodir yn y MNS. Mae'r Tîm Rheoli, er ei fod yn newydd, yn rhoi arweinyddiaeth wrth ddatblygu'r blaenoriaethau hyn. Mae'r Prif Weithredwr wedi cwrdd ag aelodau o staff mewn nifer o fforymau, er enghraifft, y Gynhadledd

Arweinyddiaeth a sioeau teithiol, i egluro'r MNS a'i ddatblygiad, a'i bwysigrwydd i ddyfodol y Cyngor. Tra bod cysylltiadau o'r fath wedi bod yn llwyddiannus, nid yw'r Cyngor eto wedi llunio strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr hyn sy'n ofynnol ohonynt a pharhau i ymgysylltu â'r MNS.

29 Penodwyd y Cyfarwyddwyr Strategol ac uwch reolwyr eraill yn brif swyddogion ar gyfer y 10 blaenoriaeth yn y MNS a hefyd wedi'u gwneud yn gyfrifol am gyfathrebu â staff ac egluro'r dull hwn o'i ddatblygu.

30 Ym mis Chwefror gofynnwyd i reolwyr gwasanaeth lunio strategaethau gwasanaeth yn seiliedig ar weddnewid gwasanaethau wrth wneud arbedion ariannol sylweddol. Mae'r strategaethau gwasanaeth hyn yn cael eu defnyddio i lunio PIDs ar gyfer y 10 blaenoriaeth. Gan nad yw'r PIDs hyn wedi'u datblygu eto mae'r sefydliad yn cyflwyno'r cynlluniau busnes cyfredol fel y gyllideb ar gyfer 2010-11 ac fe'i pennwyd eisoes.

Mae'r tîm rheoli newydd yn cefnogi gweithio partneriaeth cadarnhaol

31 Er bod y MNS wedi cael ei ddatblygu heb gyfraniad uniongyrchol gan bartneriaid nac ychwaith ymgynghoriad â dinasyddion cred y Cyngor ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r BGLI a'i fod yn ddull ymarferol o reoli gwasanaethau'r cyngor mewn sefyllfa ariannol anodd.

32 Sefydlwyd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ym mis Ebrill 2009. Mae wrthi'n adolygu'r Strategaeth Gymunedol ac mae'r Cyngor yn awgrymu datblygu Cynllun Darparu Gwasanaeth ar gyfer Powys. Nid yw hyn wedi digwydd hyd yn hyn ac ymddengys fod rhywfaint o ddryswch yn y BGLI o ran diben y cynllun a'r hyn y bydd yn ei ymgorffori. Oherwydd cam datblygu'r Cynllun Darparu Gwasanaeth a'r MNS nid yw eto'n bosibl gweld cysylltiad cryf rhyngddynt hwy a chyda cynlluniau busnes lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r Cyngor nodi'r canlyniadau y mae'n chwilio amdanynt o weithio mewn partneriaeth yn llawer gwell.

33 Mae gan y Cyngor ddull cadarnhaol a chynyddol ymarferol o weithio mewn partneriaeth sy'n arwain at nodi cyfleoedd yn y dyfodol i gydweithio a fydd yn sicrhau gwasanaethau gwell ac arbedion, yn arbennig ym maes iechyd. Mae cytundeb y Cyngor, mewn egwyddor, i uno â'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn arloesol ac mae'r Cyngor wedi cadw nifer o swyddi yn ei strwythur rheoli ar agor tra bod yr uno yn cael ei ystyried ymhellach.

34 Mae'r ymrwymiad at weithio gyda phartneriaid yn amlwg ond mae angen i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau partneriaeth yn cyflawni manteision gwirioneddol i ddinasyddion Powys.

35 Gwnawn ragor o waith ar bartneriaethau ac yn arbennig y BGLI ac Iechyd fel rhan o'n gwaith Asesiad o Welliant parhaus gyda'r Cyngor i weld pa ganlyniadau i ddinasyddion sy'n cael eu sicrhau ac y cânt eu sicrhau.

Mae gan y Cyngor hanes cryf o ran rheolaeth gyllidebol ond nid yw trefniadau gwasanaethau a chynllunio ariannol wedi'u hintegreiddio'n dda ac nid yw cynllunio ariannol tymor hwy eto'n ddigonol i gefnogi ei agenda newid strategol

Mae gan y Cyngor hanes cadarn o reolaeth gyllidebol ond nid yw cynllunio ariannol tymor hwy eto'n ddigonol i gefnogi agenda newid strategol y Cyngor

36 Yn gyffredinol mae'r Cyngor wedi dangos dull rheoli cyllidebol cadarn ac mae'r cronfeydd wrth gefn yn briodol. Cafodd y Cyngor £181.2 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11, sy'n gynnydd o 1 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Y cynnydd ar gyfartaledd i Gynghorau Cymru oedd 2.1 y cant ac roedd y codiadau yn amrywio o rhwng 1 y cant a 3.1 y cant. Mae cyllideb 2010-11 y Cyngor yn cynnwys buddsoddiad o tua £2.5 miliwn mewn gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n disgwyl i arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gyrraedd oddeutu £3.4 miliwn.

37 Fel nifer o sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor yn disgwyl wynebu amgylchedd ariannol sy'n parhau'n anodd. Fel rhan o'i ymateb mae wedi nodi chwe blaenoriaeth effeithlonrwydd yn y MNS,³ er bod y blaenoriaethau hyn eto i'w datblygu'n llawn ac nad yw'r Cyngor eto'n gwybod maint yr arbedion y byddant yn eu sicrhau. Mae'r Cyngor yn ystyried blaenoriaethau penodol o ran arbedion effeithlonrwydd, ac fel rhan o'i bedwar amcan gwella mae'n adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, megis dechrau y mae'r gwaith hwn.

38 Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu darn o waith sy'n mynd i wraidd y rhesymau dros orwario parhaus, yn arbennig ym meysydd gofal cymdeithasol i oedolion a chyllidebau ysgol nas dirprwyir ar gyfer datganiadau ac anghenion dysgu ychwanegol.

39 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar lefel uchel ac nid oes ganddo ddigon o fanylion am y ffordd y caiff adnoddau eu neilltuo i flaenoriaethau. Bydd angen i'r Cyngor wella cynllunio ariannol fel bod cysylltiadau agosach â'i flaenoriaethau gwelliant ac effeithlonrwydd os yw am alinio ei adnoddau'n well i gyflawni ei MNS.

40 Ym mis Hydref 2009⁴ gwnaethom argymhell y dylai'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei datblygu ymhellach i gynnwys cynlluniau manwl ynghylch sut y câi'r arbedion hyn eu cyflawni a'u hymgorffori mewn cynlluniau gwasanaethau. Nid yw'r Cyngor wedi gweithredu'r argymhelliad hwn yn llawn hyd yma.

Nid yw trefniadau cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol y Cyngor wedi'u hintegreiddio'n dda

41 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen integreiddio ei drefniadau cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol yn well. Ymddengys fod y dull cyfredol o lunio strategaethau gwasanaeth a PIDs yn fframwaith da, sy'n galluogi'r Cyngor i ystyried ei bedair blaenoriaeth ar gyfer gwella a'i chwe blaenoriaeth effeithlonrwydd yn hytrach nag edrych yn gul ar wasanaethau unigol yn unig.

42 Yn bur briodol, mae'r dull yn cynnwys ymgysylltu â staff, annog meysydd gwasanaethau i nodi a chyfrannu at y gwaith o ailgynllunio gwasanaethau, ac effeithlonrwydd. Ond, gan fod y Cyngor wrthi'n datblygu ei MNS mae'n rhy fuan i farnu a fydd y trefniadau hyn yn arwain at wasanaeth gwell ac integredig, a chynllunio ariannol a fydd

yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau.

Mae prosesau rheoli pobl o hyd wedi'u tanddatblygu ac nid yw'n helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliant

43 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi gweithredu trefniadau staffio a rheoli newydd. Penodwyd rheolwyr newydd gan gynnwys rhai swyddi a nodwyd fel rhai dros dro, er enghraifft y Cyfarwyddwr Strategol - Gofal a Lles, a Phennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Chomisiynu. Nodwyd y swyddi hyn ac eraill fel swyddi y gellid o bosibl eu rhannu wrth i'r Cyngor a'r Bwrdd lechyd Lleol ymchwilio i'r ffordd y gallant gydweithio'n agosach yn dilyn y penderfyniad i uno'r ddau sefydliad mewn egwyddor.

44 Cynhaliwyd adolygiad o allu ac adnoddau a sgiliau gennym yn ystod 2009⁵ a chanfuwyd bod y Cyngor wedi gwneud rhai datblygiadau addawol, ond hyd yma nid yw wedi rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod gan ei staff y gallu a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni ei agenda ar gyfer gwella.

45 Cyflwynodd y Cyngor gwrs datblygu arweinwyr fel ymateb uniongyrchol i nodi bod ganddo wendidau o ran arweinyddiaeth. Cafodd y rhaglen ei chroesawu gan staff ond nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn bwriadu manteisio'n llawn ar y sgiliau newydd hyn. Crëwyd Tair⁶ Set Dysgu Gweithredol gyda gwirfoddolwyr i ystyried materion penodol, ond nid yw eto'n amlwg i'r rhai sy'n cymryd rhan sut y bydd y gweithgareddau hyn yn cyfrannu at y MNS.

46 Er bod y Cyngor wedi adolygu ei bolisiâu adnoddau dynol yn ystod y tair blynedd diwethaf a bod ganddo bellach ddull mwy cynhwysol o adolygu polisiâu, mae angen iddo sicrhau bod ganddo gyfres gynhwysfawr o bolisiâu a fydd yn cefnogi ei MNS.

⁴ Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2008-09

⁵ Adolygiad o Allu ac Adnoddau a Sgiliau Swyddfa Archwilio Cymru Ebrill 2010

⁶ Ailgynllunio Sefydliadol, Adleoli a'r Model Lleoliad



47 Er bod y Cyngor, ers 2006-07, yn cydnabod bod angen cynllunio'r gweithlu yn effeithiol nid yw hyd yma wedi datblygu trefniadau cynllunio'r gweithlu effeithiol ar lefel gwasanaethau na lefel gorfforaethol. Mae'r gweithlu yn un o chwe blaenoriaeth effeithlonrwydd y MNS ond fel y nodwyd yn flaenorol mae datblygiad y PID ar gam cynnar.

Nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen newid drawstoriadol

48 Mae gan y Cyngor fodel datblygedig ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth am berfformiad. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad cyfredol yn rhoi sail iddo a all, o'i datblygu ymhellach, ei alluogi i reoli, monitro a gwerthuso perfformiad o ran canlyniadau ar gyfer dinasyddion. Mae'r Cyngor yn parhau i wneud gwelliannau yng nghywirdeb ei Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol fel y cydnabyddir mewn Llythyrau Archwilio Blynyddol.

49 Mae gan y Cyngor dîm canolog ymrwymedig sy'n monitro perfformiad ac yn cynhyrchu nifer o fesurau olrhain, er enghraifft, y Mesur Olrhain Gwelliant Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion yn canolbwyntio ar feintiau gwasanaethau, rhai ar gostau a rhai prin ar allbynnau a chanlyniadau sy'n ei gwneud yn anodd gweld perfformiad gwasanaeth o safbwynt defnyddwyr. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn cwrdd bob chwarter i adolygu perfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol.

50 Ar hyn o bryd mae bwloch yn nhrefn rheoli perfformiad y Cyngor yn absenoldeb Cynllun Gwella Corfforaethol cytûn sy'n cynnwys mesurau a thargedau perfformiad allweddol. Mae hyn yn cael effaith

andwyol ar y gwaith o ddylunio, datblygu a gweithredu system Ffynnon ac mae'n amlwg yn effeithio ar yr hyn y mae'r Cyngor wrthi'n ei fonitro ac ar reoli o ran perfformiad ei wasanaethau.

51 Mae angen i'r Cyngor symud at fesur seiliedig ar ganlyniadau wrth asesu'r gwaith o gyflawni'r MNS. Byddai hyn yn ategu'r dangosyddion a'r gweithgareddau monitro perfformiad cyfredol ac, yn hanfodol, byddai'n darparu rhyw fodd i fesur canlyniadau ar gyfer dinasyddion Powys.

52 Mae angen i reolwyr gydnabod bod rheoli perfformiad yn ymwneud â rheoli pobl yn ogystal â chasglu'r wybodaeth angenrheidiol. Bu'r Cyngor yn ymwybodol o'r dull amrywiol ac anghyson o gynnal arfarniadau staff. Y llynedd, cyflwynwyd dangosydd perfformiad penodol i fesur nifer yr arfarniadau a gwblhawyd o ran staff swyddfa. Mae'r ffaith mai dim ond 5.8 y cant⁷ o staff a gofnodwyd fel cael arfarniad a gwblhawyd yn 2009-10 yn awgrymu bod gan y Cyngor dipyn o ffordd i fynd cyn bod yr agwedd hon ar reoli perfformiad yn cael ei hymgorffori mewn prosesau rheoli bob dydd.

53 Mae gan y Cyngor Set Dysgu Gweithredol, sy'n cynnwys rheolwyr o bob rhan o'r sefydliad, sy'n archwilio ac yn gwerthuso i'r amryw ddulliau a fabwysiadwyd ym mhob rhan o'r Cyngor ar gyfer gwella. Ymhlith y dulliau mae Ail-beiriannu'r Broses Fusnes a Vanguard (meddylfryd systemau). Mae'r Cyngor wedi defnyddio meddylfryd systemau yn ei Wasanaeth Priffyrdd ac mae swyddogion yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i ddeall a gwella prosesau a gwasanaethau busnes.

Mae'r Cyngor wedi dechrau meithrin y seiliau i alluogi TGCh i gefnogi gwelliant, ond mae o hyd rwystrau sylweddol i'w goresgyn

- 54** Hyd yn ddiweddar iawn, cafodd y gwasanaeth TGCh yn y Cyngor ei danariannu. Nid oedd cyfeiriad strategol cydlynol yn amlwg a phrin oedd yr ymgysylltu effeithiol â gweddill y Cyngor. Rhoddwyd TGCh i un ochr a nis ystyriwyd yn ddull allweddol o wella gwasanaethau. Dangosai canlyniadau arolygon yn gyson fod staff TGCh yn dweud nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi digon a bod ymwybyddiaeth isel o TG ymhlith staff y Cyngor yn gyffredinol. Yn hanesyddol, mân ddatblygiadau a gafwyd ym maes TGCh ac mae staff TGCh o hyd wedi'u dosbarthu ar draws nifer o feysydd gwasanaeth yn ogystal ag o fewn y tîm TGCh canolog.
- 55** Mae newid rheolwyr yn TGCh wedi rhoi cyfle i newid dull. Mae Pennaeth newydd TGCh yn rhoi arweinyddiaeth gref ar gyfer y gwasanaeth TGCh a ffocws cryf ar wella gwasanaethau corfforaethol. Datblygwyd strategaeth newydd ar gyfer TGCh a chytunodd y Cyngor arni, ac fe'i cefnogir gan gynllun ariannu tair blynedd.
- 56** Mae gan y ffocws cryf ar wella gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd a ddeilliodd o MNS y Cyngor sydd wrthi'n datblygu, yn ogystal â fframwaith llywodraethu TGCh ffurfiol gyda mecanweithiau cyflwyno adroddiadau ar waith, y potensial i alluogi llawer mwy o alinio rhwng y gwasanaeth TGCh, y strategaeth gorfforaethol gyfan a thimau darapru gwasanaeth.
- 57** Fodd bynnag, er gwaethaf y newidiadau strwythurol hyn, mae o hyd nifer o rwystrau i'w goresgyn cyn i'r dull newydd o ymwneud â TGCh ddechrau chwarae rhan lawn yn agenda gwella'r Cyngor. Ymhlith y rhain roedd; diwylliant sy'n gwrthsefyll newid, hen seilwaith TGCh, diffyg safoni a neilltuo adnoddau cyfyngedig ar gyfer maes llywodraethu gwybodaeth.

